Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad Cymru 2015

## Adroddiad CRIDE ar arolwg 2014/15 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

### Cyflwyniad

Yn 2015 cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei bumed arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar[1] ym mlwyddyn ariannol 2014/15[2]. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.


### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Mae o leiaf 3,288 o blant byddar yng Nghymru; cynnydd cofnodedig o 14% ers 2014.
- Mae 85% o blant byddar oedran ysgol yn mynychu ysgolion prif ffrwd lle na cheir darpariaeth arbenigol.
- Cofnodir fod gan 18% o blant byddar angen addysgol arbennig ychwanegol. Ymddengys mai'r angen ychwanegol mwyaf cyffredin yw anawsterau dysgu cymedrol.
- Mae tua 4% o blant byddar ag o leiaf un mewnblaniad yn y cochlea, tra bod 1% â chymorth clyw drwy asgwrn.
- Mae tua 78% o blant byddar yn cyfathrebu trwy ddefnyddio Saesneg llafar yn unig, a thua 13% yn cyfathrebu trwy ddefnyddio Cymraeg llafar yn unig yn yr ysgol neu leoliadau addysgol eraill. Mae tua 8% yn defnyddio rhyw ffurf ar iaith arwyddion, naill ai ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â Saesneg neu Gymraeg llafar.
- Mae 2% o blant byddar yng Nghymru yn defnyddio iaith lafar arall ar wahân i Saesneg neu Gymraeg yn y cartref.
- Y cyrchfan ar ôl ysgol mwyaf cyffredin ar gyfer pobl ifanc byddar yw addysg bellach, lle aeth 69% o bobl ifanc byddar y llynedd.
- Cyflogir o leiaf 74 (CALl) o athrawon fel Athrawon Plant Byddar mewn gwasanaethau neu ddarpariaethau adnoddau, a 70 (94%) ohonynt yn Athrawon Plant Byddar cymwysedig.
- Mae yna o leiaf 85 (CALl) staff cymorth arbenigol arall yn gweithio gyda phlant byddar yng Nghymru. Y swyddogaeth fwyaf cyffredin yw cynorthwyydd addysgu.


---

1 At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 mlwydd oed â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol yn ôl disgrifyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD. Defnyddiwn y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel, o fân fyddardod i fyddardod llwyr.

2 Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) yn http://www.batod.org.uk/index.php?id=/resources/survey neu ar wefan NDCS yn www.ndcs.org.uk/cride.

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 ardal awdurdodol. Golyga hyn fod yr arolwg CRIDE hwn wedi cyflawni cyfradd ymateb o 100% am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

## Defnyddio'r canlyniadau

Gellir defnyddio adroddiad CRIDE yn y ffyrdd canlynol:

- Gall penaethiaid ysgol a gwasanaethau ar gyfer plant byddar wneud defnydd o'r canfyddiadau demograffig cymaradwy wrth iddynt baratoi ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol ar y ddarpariaeth leol. Gall cael mynediad at ddata blynyddol helpu i sicrhau fod plant byddar yn cael eu hadnabod a bod darpariaeth effeithiol yn cael ei chynnig ar eu cyfer.
- I reolwyr, gall y set ddata lywio, yn ddibynadwy, gynllunio strategol yn ymwneud â staffio a materion hyfforddi staff - gellir adnabod tueddiadau sy'n llywio'r trafodaethau hyn.
- Caiff ymchwilwyr ym maes addysg fyddar sydd yn cyfrannu at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth fynediad at wybodaeth berthnasol a defnyddiol am y boblogaeth sy'n cael ei hastudio.
- Bydd yr adroddiad yn addysgiadol ac o ddiddordeb i rieni plant a phobl ifanc byddar ac i blant byddar, gan ei fod yn creu darlun o'r ddarpariaeth genedlaethol ar gyfer plant byddar.

Dymuna CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am ymateb i'r arolwg, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.

## Dehongli'r canlyniadau

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa ar Ionawr 31 2015.

Er y credwn fod ansawdd y data wedi gwella, mae nifer o wasanaethau'n dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae o hyd anghysondebau yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg. Weithiau mae'r gyfradd ymateb i gwestiynau unigol yn amrywio. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.**

Trwy'r adroddiad rydym wedi amlygu unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon CRIDE blaenorol. Unwaith eto, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau oherwydd y newidiadau bychain yn y ffordd y geiriwyd cwestiynau o flwyddyn i flwyddyn a hefyd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol rhwng yr arolygon.

Noder bod pob canran wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Noder hefyd lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, rydym wedi dangos ‘<5’. Mewn rhai achosion, mae'r cyfanswm wedi'i dalgrynnu i fyny neu i lawr neu mae ffigur canran wedi'i dynnu, fel a nodir gan serennig. Mae hyn er mwyn osgoi'r perygl o adnabod plant unigol.

## Cynnwys

RHAN 1: Cyfanswm y plant byddar yng Nghymru ("perthyn") ........ 3
RHAN 2: Nifer y plant byddar a gefnogir ........ 12
RHAN 3: Athrawon Plant Byddar ........ 15
RHAN 4: Staff arbenigol eraill ........ 19
RHAN 5: Meini prawf / fframweithiau cymhwysedd a threfniadau ariannu ........ 21
RHAN 6: Cefndir a methodoleg ........ 25
Atodiad A: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol ........ 26

# RHAN 1: Cyfanswm y plant byddar yng Nghymru ("perthyn")

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n "perthyn" i'r gwasanaeth. Diffiniwyd "perthyn" fel: pob plentyn byddar sy'n byw o fewn yr Awdurdod Lleol3.

**Faint o blant byddar sydd?**

Wrth roi ffigurau nifer y plant sy'n perthyn, gofynnwyd i wasanaethau roi ffigur cyffredinol yn gyntaf ac wedyn i ddarparu dadansoddiad yn ôl grŵp oedran, lefel byddardod a sefydliad addysgol. Canfuom na ddarparodd rhai o'r gwasanaethau'r data hwn yn gyson; darparodd rhai gwasanaethau ddosraniad o'r ffigurau oedd yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r cyfanswm a roddwyd mewn rhannau eraill o'r arolwg.

O ganlyniad, nid mater syml yw rhoi ateb pendant i'r cwestiwn faint o blant byddar sydd, a dylid defnyddio'r ffigurau hyn â gofal. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffigur uchaf a roddwyd o naill ai'r cyfanswm cyffredinol neu'r cyfanswm a gynhyrchwyd gan swm y ffigurau wedi'u dosrannu. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau ein bod wedi cynnwys cymaint o blant byddar ag sy'n bosib. Yn yr achosion hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu" trwy gydol yr adroddiad hwn.

Yn seiliedig ar ymatebion gan 15 gwasanaeth yn cynrychioli 22 awdurdod lleol, y cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar yng Nghymru yw 3,288. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 2,880 yn 2013/14 sy'n dod i gynnydd o 14% ar y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn dau wasanaeth penodol. Mae'n anodd fod yn sicr i ba raddau y mae'r cynnydd hwn oherwydd newidiadau mewn demograffeg neu fanylder o ran cofnodi. Amlinellir y ffigurau heb eu haddasu isod.

Darparodd 7 gwasanaeth (46%) yr un ffigur am y nifer o blant sy'n perthyn yn eu hardal â'r nifer o blant a gefnogir. Nid yw'n glir os yw hyn oherwydd bod rhai gwasanaethau yn darparu cymorth i bob plentyn byddar sy'n byw yn eu hardal neu oherwydd bod gwasanaethau yn dal gwybodaeth am y plant y maent yn eu cefnogi yn unig.

*Tabl 1: Ffigurau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar*

| | **Cyfanswm a gynhyrchir** |
|---|---|
| Cyfanswm wedi'i addasu | 3,288 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant yn gyffredinol | 3,275 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl grŵp oedran a lefel byddardod | 3,285 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl sefydliad addysgol | 3,290* |

Cymhara'r tabl dilynol gyfanswm y nifer o blant byddar sy'n perthyn dros y pum mlynedd diwethaf. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau ag adroddiadau cynharach oherwydd gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau.

3 Mae hyn yn cynnwys plant byddar sy'n byw o fewn ffin yr awdurdod lleol ond sydd yn mynychu ysgol sydd y tu allan i'r awdurdod lleol. Nid yw'n cynnwys plant byddar sy'n byw tu allan i'r awdurdod lleol ond sydd yn mynychu ysgolion o fewn yr awdurdod

*Tabl 2: Nifer y plant sy'n perthyn, dros sawl blwyddyn yn olynol*

| | **Nifer y plant byddar sy'n perthyn a gofnodwyd** |
|---|---|
| CRIDE 2015 | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 | 2,904 |
| CRIDE 2012 | 2,743 |
| CRIDE 2011 | 2,755 |

**Beth mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru**

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel byddardod a lleoliad addysg.

*Tabl 3: Nifer y plant sy'n perthyn, yn ôl oedran*

| **Grŵp oedran** | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** | **Cyfradd o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cyn-ysgol | 304 | 9% |
| Ysgol gynradd (o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6) | 1,783 | 54% |
| Plant oedran ysgol gyfun (blwyddyn 7 i 11) | 1,021 | 31% |
| Pobl ifanc mewn chweched dosbarth mewn ysgol (blwyddyn 12 i 13) | 139 | 4% |
| Pobl ifanc mewn addysg / sydd wedi cwblhau blwyddyn 11 ond nad ydynt mewn coleg chweched dosbarth mewn ysgol (e.e. maent mewn Coleg Addysg Bellach Cyffredinol, wedi'u cofrestru gyda darparwr hyfforddiant preifat, mewn gwaith, ayb) | 38 | 1% |
| Cyfanswm | 3,285 | |

Ynglŷn â nifer y bobl ifanc  byddar 'ôl 16' a gofnodwyd, adrodda 2 awdurdod (13% o wasanaethau) nad oes ganddynt unrhyw berson ifanc byddar mewn chweched dosbarth a gynhelir. O ran darpariaeth ôl-16 arall (h.y. mewn Addysg Bellach, prentisiaethau, ayb.) adrodda 7 gwasanaeth (47% o wasanaethau) nad oes ganddynt unrhyw berson ifanc arall yn y categori hwn yn eu hardal. Cred CRIDE fod hyn yn adlewyrchu'r anawsterau sydd gan rai gwasanaethau wrth adnabod y bobl ifanc hyn yn hytrach nag absenoldeb llwyr carfan o bobl ifanc byddar mewn addysg ôl 16 yn yr ardaloedd hyn.

Er mwyn cymharu, edrychwyd ar ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran[4] i weld os oedd yna unrhyw wahaniaethau yn y gyfran o blant mewn gwahanol grwpiau oedran. Dylid nodi ni ofynnodd CRIDE am oedran penodol plant ond yn hytrach os oeddynt o “oedran ysgol gynradd”, ayb. felly dylid cymryd y data sy'n dilyn i fod yn fras amcan yn unig. Hefyd, fe wŷr fod achosion o fyddardod yn amrywio yn ôl oedran, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod nifer o blant byddar yn dod yn fyddar. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau yn y tabl dilynol yn uniongyrchol.

4 www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-368259

*Tabl 4: Cyfran y plant yn ôl oedran*

| SYG | | | CRIDE | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Cyfradd o'r holl blant** | | **Categori** | **Cyfradd o'r holl blant byddar** |
| Plant o 0 i 3 oed | 20% | | Cyn ysgol | 15% |
| Plant o 4 i 11 oed | 38% | | Ysgol Gynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) | 45% |
| Plant o 12 i 16 oed | 24% | | Ysgol Gyfun (blwyddyn 7 i 11) | 33% |
| Plant o 17 i 19 oed | 16% | | Ôl-16 | 8% |

*Tabl 5: Nifer y plant byddar sy'n perthyn, yn ôl lefel byddardod*

| **Lefel byddardod** | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** | **Cyfradd o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Unochrol | 399 | 12% |
| Mân | 1,037 | 32% |
| Cymedrol | 1,144 | 36% |
| Difrifol | 331 | 10% |
| Llwyr | 285 | 9% |
| Cyfanswm (lle bo'n hysbys) | 3,196 | |
| | | |
| Nid yw'n hysbys | 89 | |

*Tabl 6: Nifer y plant, sy'n perthyn yn ôl sefydliad addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol** | | **Nifer y plant byddar** | **Cyfradd o'r cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 162 | 5% |
| | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 153 | 5% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 5 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 2,455 | 75% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (e.e. Eton) | 37 | 1% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | 195 | 6% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 202 | 6% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 15 | 0% |
| **Tu allan i'r awdurdod lleol** | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 0 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 8 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | 21 | 1% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | <5 | 0% |
| | Ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar | 14 | 0% |
| | Ysgol arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 13 | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 0 | 0% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | <5 | 0% |
| | Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion) | 0 | 0% |
| | Nid yw'n hysbys | <5 | 0% |
| **Cyfanswm** | | 3,290* | |

*Tabl 7: Dadansoddiad o fathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)*

| **Math o ddarpariaeth addysgol (heb gynnwys 'arall' ac 'nid yw'n' hysbys')** | **Cyfradd o'r cyfanswm** |
|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol cartref** | 98% |
| **Tu allan i'r awdurdod lleol cartref** | 2% |

*Tabl 8: Dadansoddiad o fathau o ddarpariaeth addysgol*

| Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol) | Nifer y plant byddar | Cyfradd o'r cyfanswm | Cyfradd o'r cyfanswm o blant oedran ysgol (h.y. heb gynnwys plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl 16 ac arall) |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 162 | 5% | |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 153 | 5% | |
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 5 | 0% | 0% |
| Ysgolion prif ffrwd (yn cynnwys ysgolion annibynnol) | 2,521 | 77% | 85% |
| Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau | 200* | 6% | 7% |
| Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar | 14 | 0% | 0% |
| Ysgolion arbennig arall, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol | 215 | 7% | 7% |
| Darpariaeth ôl 16 i gyd yn cynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Addysg Bellach, prentisiaethau, ayb. | 15 | 0% | |
| Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion, NEET, nid yw'n hysbys) | <5 | * | |
| Cyfanswm | 3,290* | | |
| Cyfanswm (heb gynnwys plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl 16 ac 'arall') | 2,955* | | |

Awgryma canlyniadau CRIDE 2015 fod 85% o blant byddar oedran ysgol mewn sefydliad prif ffrwd heb ddarpariaeth arbenigol.

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 63 o blant byddar yn perthyn o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 1,198 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n perthyn mewn pob gwasanaeth oedd 218.

**Amlder Anhwylder ar y Sbectrwm Niwropatheg Clywedol (ANSD)**

Rhoddodd 10 o wasanaethau ffigur wrth ateb cwestiwn am nifer y plant oedd ag ANSD yn eu hardal. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, mae yna 25 o blant byddar yng Nghymru ag ANSD 1% o holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu).

Oherwydd protocolau sgrinio clyw babanod, yr unig ffordd ddibynadwy o ganfod bod babanod yn dioddef o ANSD yw dilyn gweithredoedd profi ar y rheiny sydd wedi bod mewn Unedau Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NICU), ac nis canfyddir gan y sgrinio a ddefnyddir ym mhoblogaeth 'babanod iach'. Cymru oedd y wlad gyntaf ym Mhrydain i gyflwyno sgrinio clyw babanod i bob babi yn 2003. Awgrymir ffigurau a ddarperir trwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod bod tua 1 o bob 10 plentyn sydd â byddardod cynhenid yn dioddef o ANSD. Felly mae hyn yn awgrymu bod rhai o'r gwasanaethau'n tangofnodi. Gall hyn fod oherwydd diffyg-adnabod ANSD mewn plant byddar hŷn - y rhai na chawsant eu sgrinio yn fabanod gan eu bod wedi cael eu geni cyn i sgrinio cael ei gyflwyno i bob babi yn 2003, y 'babanod iach' a basiodd y sgrinio ac a gafodd eu canfod yn ddiweddarach, yn ogystal â'r rhai sydd â byddardod caffaeledig / cynyddol nad ydynt wedi cael eu profi am ANSD.

**Amlder anghenion addysgol arbennig ychwanegol (AAA)**

Gofynnwyd i wasanaethau ddweud wrthym sawl plentyn (o'r cyfanswm "sy'n perthyn") oedd ag angen addysgol arbennig ychwanegol (fel y'i diffinnir gan ganllawiau Cyfrifiad Ysgol). Ymatebodd 14 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn, yn adnabod 591 o blant sydd ag angen addysgol arbennig ychwanegol, 18% o'r cyfanswm o blant byddar. Mae hyn yn gynnydd o 16% yn 2013/14.

Gofynnir i wasanaethau ddarparu dadansoddiad yn ôl y math o angen addysgol arbennig ychwanegol yn defnyddio'r dosbarthiad a amlinellir yn y canllaw priodol yng Nghymru. Ar gyfer y cwestiwn hwn, nid oedd yn bosib i rai o'r gwasanaethau ddarparu dadansoddiad.

*Tabl 9: Nifer y plant byddar sydd ag AAA ychwanegol, yn ôl math o AAA*

| | **Nifer y plant byddar** | **Canran o blant byddar sydd ag AAA ychwanegol (lle bo'r math o AAA yn hysbys)** | **Canran o holl blant byddar** |
|---|---|---|---|
| Anawsterau Dysgu Cymedrol | 71 | 17% | 2% |
| Anawsterau Dysgu Cyffredinol | 47 | 11% | 1% |
| Anhawster Dysgu Difrifol | 58 | 14% | 2% |
| Anhawster Dysgu Dwys a Lluosog | 46 | 11% | 1% |
| Dyslecsia | 10 | 2% | 0% |
| Dyscalcwlia | <5 | * | * |
| Dyspracsia | <5 | * | * |
| Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd | <5 | * | * |
| Anhwylder Sbectrwm Awtistig | 17 | 4% | 1% |
| Anawsterau corfforol a meddygol | 47 | 11% | 1% |
| Nam ar y Golwg | 5 | 1% | 0% |
| Nam Amlsynnwyr | 46 | 11% | 1% |
| Anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol | 15 | 4% | 0% |
| Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu | 45 | 11% | 1% |
| Cyfanswm | 413 | | |

Awgryma'r ffigurau mai anhawster dysgu cymedrol yw'r AAA ychwanegol mwyaf cyffredin ac wedyn anhawster dysgu difrifol.

Fel cymhariaeth, awgrymodd ymchwil5 o 1996 bod 40% o blant byddar â “phroblem glinigol neu ddatblygiadol” arall. Ond mae'r ymchwil hwn yn defnyddio diffiniad eang o “broblemau” ychwanegol (yn cynnwys, er enghraifft, ecsema a pharlys yr ymennydd) tra deellir fel arfer fod AAA yn cyfeirio at achosion pan fod gan blant anhawster neu anabledd dysgu, sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt. Mae diffiniad anhawster neu anabledd dysgu yn cynnwys pan fydd gan blant anabledd sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a darperir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod lleol. Felly unwaith eto, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau yn union.

5 Fortnum H. Davies (1997) Epidemiology of permanent childhood hearing impairment in Trent Region, 1985-1993. *British Journal of Audiology, 1997,31,409-446*

## Plant byddar â mewnblaniadau yn y cochlear a chymhorthion clyw drwy asgwrn

Adroddodd gwasanaethau fod 147 o blant byddar ledled Cymru â mewnblaniadau yn y cochlear (4% o'r cyfanswm o blant byddar, wedi'i addasu) a 31 o blant â chymhorthion clyw drwy asgwrn (1% o'r cyfanswm).

*Tabl 10: Nifer y plant byddar sy'n perthyn sydd â mewnblaniadau yn y cochlear, yn ôl grŵp oedran*

| Oedran | Cyfanswm sydd â mewnblaniadau yn y cochlear | Cyfanswm y plant byddar o fewn pop categori oedran | Canran o'r cyfanswm o fewn pob categori oedran |
|---|---|---|---|
| Cyn-ysgol | 14 | 304 | 5% |
| Oedran ysgol gynradd | 70 | 1,783 | 4% |
| Oedran ysgol gyfun | 49 | 1,021 | 5% |
| Wedi cwblhau blwyddyn 11 | 14 | 177 | 10% |
| Cyfanswm | 147 | 3,285 | 4% |

*Tabl 11: Cymhorthion clyw drwy asgwrn*

| Oedran | Cyfanswm sydd â chymorth | Cyfanswm y plant byddar o fewn pop categori oedran | Canran o'r cyfanswm o fewn pob categori oedran |
|---|---|---|---|
| Cyn-ysgol | <5 | 304 | * |
| Oedran ysgol gynradd | 19 | 1,783 | 1% |
| Oedran ysgol gyfun | 6 | 1,021 | 1% |
| Wedi cwblhau blwyddyn 11 | <5 | 177 | * |
| Cyfanswm | 31 | 3,285 | 1% |

## Ieithoedd ychwanegol

*Tabl 12:  Nifer y plant byddar, yn ôl yr ieithoedd a ddefnyddir yn yr ysgol / lleoliad addysgol arall*

| Iaith | Cyfanswm | Canran o'r ymatebion |
|---|---|---|
| Saesneg llafar | 1,598 | 78% |
| Cymraeg llafar | 277 | 13% |
| Iaith Arwyddion Prydain | 30 | 1% |
| Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddo | 106 | 5% |
| Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddo | 26 | 1% |
| Cyfuniad arall | 20 | 1% |
| Cyfanswm | 2,057 | |

Darparodd 14 gwasanaeth wybodaeth am o leiaf rhan o'r cwestiwn hwn.  O'r rhai a ymatebodd, nid oedd yn bosib i rai adnabod iaith pob plentyn byddar yn eu hardal.  Mae tua 1,230 plentyn byddar nad oes cyfrif amdanynt yn y ffigurau uchod, felly dylid defnyddio'r ffigurau hyn â gofal.

Dengys y ffigurau uchod fod y canran o blant byddar sy'n defnyddio iaith arwyddion, naill ai ar ei phen ei hun neu ynghyd ag iaith lafar, yn 8%.

Am y tro cyntaf, gofynnodd CRIDE ar wahân am nifer y plant byddar sy'n defnyddio iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol gartref. Canfu gwasanaethau 70 o blant lle'r oedd hyn yn wir, 2% o'r cyfanswm o blant byddar.

**Plant byddar ôl-16**

Am y tro cyntaf, gofynnodd CRIDE gyfres o gwestiynau am bobl ifanc byddar dros 16 mlwydd oed. Mae'r nifer o bobl ifanc a adroddwyd arnynt yn y tablau dilynol yn ymddangos yn isel ac nid ydynt yn cyfateb bob tro i'r ffigurau a rhoddir yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Felly dylid defnyddio'r ffigurau â gofal.

*Tabl 13: Cyrchfannau ar ôl ysgol*

| **Cyrchfan ar ôl ysgol** | **Nifer y bobl ifanc** | **Canran (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Addysg bellach (coleg) | 25 | 69% |
| Addysg uwch (prifysgol neu gwrs addysg uwch yn y coleg) | 6 | 17% |
| Hyfforddiant / prentisiaeth | <5 | * |
| Cyflogaeth | <5 | * |
| Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | <5 | * |
| Arall | 0 | 0% |
| Cyfanswm (lle bo'n hysbys) | 36 | |
| | | |
| Nid yw'n hysbys | 12 | |
| Ni chedwir y data | 2 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys' neu ' ni chedwir y data') | 50 | |

Awgryma'r tabl uchod fod addysg bellach yw'r cyrchfan ar ôl ysgol mwyaf cyffredin i bobl ifanc byddar ac wedyn addysg uwch,

Gofynnodd CRIDE am nifer y bobl ifanc byddar, a adawodd yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2013/14, a oedd yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan Athro Plant Byddar. Adroddodd gwasanaethau fod hyn yn berthnasol i 30 o bobl ifanc.

*Tabl 14: Sut mae gwasanaethau yn pennu'r lefel o gymorth ar gyfer cynllunio pontio sydd ei angen ar bobl ifanc byddar*

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Ni ddefnyddir meini prawf ffurfiol | 4 | 27% |
| Datblygir meini prawf yn lleol | 9 | 60% |
| Arall | 2 | 13% |

Gofynnodd CRIDE hefyd i ba raddau oedd pobl ifanc byddar mewn addysg bellach neu gyrchfannau ar ôl ysgol eraill yn derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth. Gan amlaf, mae'n debyg ni ddarperir unrhyw gefnogaeth.

*Tabl 15: Cefnogaeth a ddarperir gan wasanaethau i bobl ifanc byddar mewn addysg bellach neu gyrchfannau ar ôl 16 eraill*

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dim cysylltiad | 9 | 60% |
| Darperir cefnogaeth i ddysgwyr byddar pan fydd darparwyr ôl-16 yn ei chomisiynu | 0 | - |
| Mae cytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr byddar ar waith gydag un darparwr ôl-16 neu fwy | 0 | - |
| Darperir cefnogaeth anffurfiol i ddysgwyr byddar mewn un darparwr ôl-16 neu fwy | 3 | 20% |
| Arall | 3 | 20% |
| Cyfanswm | 15 | |

Cofnodwyd atebion eraill yn cynnwys:

- Darperir hyfforddiant HMS i goleg addysg bellach yn ogystal ag un ymweliad pontio.
- Darperir hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o fyddardod i staff addysg bellach a hyfforddiant ar ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol yn ôl y gofyn.
- Darperir taflenni gwybodaeth a gwefannau defnyddiol.

**Sut mae ffigurau CRIDE 2015 yn cymharu â ffigurau o ffynonellau eraill?**

*Cyfrifiad Ysgol*

Adrodda arolwg CRIDE 2015 fod 3,288 o blant byddar yng Nghymru. Ond awgryma ffigurau Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru 2015 fod 2,182 o ddisgyblion sydd â 'nam ar y clyw' fel ei AAA mwyaf a bod y plentyn wedi'i osod ar Weithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, neu sydd â datganiad AAA[6]. Awgryma hyn gynnydd o 1.5% ers Cyfrifiad Ysgol 2014 pan fu ffigur cyfatebol o 2,149[7].

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu data ar nifer y plant mewn ysgolion a gynhelir lle y cofnodir nam ar y clyw yn AAA eilaidd8. Yn 2015, bu'r ffigur hwn yn 622. O ganlyniad, cofnododd y Cyfrifiad Ysgolion gyfanswm o 2,804 o ddisgyblion â nam ar y clyw yn 2014.  Mae hyn yn cynnwys nifer amhendant o blant mewn meithrinfeydd a gynhelir9.

I gloi, cofnodwyd bod gan 48 o ddisgyblion ychwanegol namau amlsynnwyr yn brif angen.

6 Data ar gael yn http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?skip=1&lang=cy.
Mae data'r Cyfrifiad Ysgol yn seiliedig ar ddatganiadau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) gan ysgolion ar draws Cymru. Felly, ni chynhwysa'r data plant sy'n mynychu ysgol arbennig tu allan i Gymru neu sydd yn derbyn addysg yn y cartref.  Cynhwysir plant sydd ar Weithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â Datganiad. Cynhwysa'r ffigur tri disgybl sy'n mynychu ysgol annibynnol ac sydd â Datganiad, ond ni ddarpara'r set ddata wybodaeth parthed a oes unrhyw blant byddar a all fod yn mynychu ysgol annibynnol heb Ddatganiad.

7 https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-majorneed-year

8 Er hynny, dylid nodi y darperir gwybodaeth am anghenion eilaidd gan ysgolion yn wirfoddol. Dylid nodi hefyd na chesglir gwybodaeth am anghenion eraill tu hwnt i anghenion eilaidd.

9 Nid yw'n bosib adnabod faint o'r rheini sydd yn cyfateb i ddisgyblion meithrin ond, yn seiliedig ar ffigurau a rhoddwyd yn gynharach, nid yw'n afresymol i dybio ei bod yn gymharol isel.

## RHAN 2: Nifer y plant byddar a gefnogir

Yn gynharach, edrychasom ar nifer y plant byddar sy'n "perthyn" i neu sy'n byw o fewn awdurdod lleol. Hefyd gofynasom am nifer y plant byddar a gefnogir10 gan y gwasanaeth. Mae'r adran hon yn amlinellu ein dadansoddiad o'r ffigurau hyn o nifer y plant a gefnogir. Cafwyd problemau tebyg yma hefyd ynglŷn â'r cyfansymiau a rhoddir sy'n wahanol i'w gilydd, ac felly rydym wedi cyfrifo cyfanswm wedi'i addasu yma hefyd.

Yn seiliedig ar ymatebion gan 15 o wasanaethau, awgryma ein harolwg fod o leiaf 3,022 o blant byddar yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol (cyfanswm wedi'i addasu). Mae tueddiad wedi bod i'r ffigur hwn amrywio dros y blynyddoedd diwethaf: y llynedd roedd y ffigur hwn yn 2,345 ond y flwyddyn cyn hynny roedd 2,530 o blant byddar.

*Tabl 16: Ffigurau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar a gefnogir*

| | **Cyfanswm a gynhyrchwyd** |
|---|---|
| Cyfanswm wedi'i addasu | 3,022 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am gyfanswm cyffredinol y plant | 3,019 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl oedran | 2,997 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl lefel byddardod | 2,984 |

Y nifer lleiaf o blant a gefnogir gan wasanaeth oedd 62 a'r uchaf oedd 1,198. Y cyfartaledd oedd 202.

**Beth a wyddom am boblogaeth y plant byddar a gefnogir?**

*Tabl 17: Nifer y plant byddar a gefnogir, yn ôl grŵp oedran*

| **Grŵp oedran** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Plant cyn-ysgol | 305 | 10% |
| Plant oedran ysgol gynradd | 1,615 | 54% |
| Plant oedran ysgol gyfun | 920 | 31% |
| Plant / pobl ifanc mewn chweched dosbarth a gynhelir (blwyddyn 12 i 13) | 127 | 4% |
| Plant / pobl ifanc mewn addysg sydd wedi cwblhau blwyddyn 11 ond nad oeddynt mewn chweched dosbarth mewn ysgol (e.e. maent mewn Coleg Addysg Bellach Cyffredinol, wedi'u cofrestru â darparwr hyfforddiant preifat, mewn cyflogaeth, ayb) | 22 | 1% |
| Cyfanswm (lle bo'n hysbys) | | |
| | | |
| Nid yw'n hysbys | | |
| Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw/n hysbys') | 2,997 | |

10 Rhoddwyd enghreifftiau o gymorth yn cynnwys dysgu uniongyrchol, ymweliadau â'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol ac athrawon, darparu gwiriadau teclynnau clyw, ayb.

*Tabl 18: Nifer y plant byddar a gefnogir, yn ôl lefel byddardod*

| **Lefel byddardod** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Unochrol | 317 | 11% |
| Mân | 891 | 31% |
| Cymedrol | 1,136 | 39% |
| Difrifol | 323 | 11% |
| Llwyr | 250 | 9% |
| Cyfanswm (lle bo'n hysbys) | 2,917 | |
| | | |
| Nid yw'n hysbys | 67 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys') | 2,984 | |

Os oes 3,288 o blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu) sy'n byw yng Nghymru, mae yna o leiaf 266 plentyn byddar sydd ddim yn cael eu cefnogi. Hynny yw, awgrymau'r ffigurau bod 92% o blant byddar yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol. Nid yw o anghenraid yn golygu nad yw 8% o blant byddar yn derbyn cymorth; mae'n bosib bod rhai ohonynt yn derbyn cymorth gan rywun arall, er enghraifft, ysgolion arbennig.

Cymhara'r tabl isod y gwahaniaeth canrannol rhwng pob grŵp oedran er mwyn gweld a oes unrhyw grŵp oedran penodol syn llai tebygol o dderbyn cymorth. Yn gyfrannol, ymddengys fod pobl ifanc byddar dros 16 nad ydynt mewn chweched dosbarth a gynhelir, yn llai tebygol o dderbyn cefnogaeth na grwpiau oedran eraill.

*Tabl 19: Cymhariaeth rhwng nifer y plant byddar sy'n perthyn ac a gefnogir yn ôl oedran*

| **Grŵp oedran** | **Nifer y plant byddar sy'n perthyn** | **Nifer y plant byddar a gefnogir** | **Cyfran o'r plant byddar a gefnogir yn ganran o'r plant byddar sy'n perthyn** |
|---|---|---|---|
| Cyn-ysgol | 304 | 305 | 100% |
| Ysgol Gynradd | 1,783 | 1,615 | 91% |
| Ysgol Gyfun | 1,021 | 920 | 90% |
| Pobl ifanc mewn chweched dosbarth a gynhelir (blwyddyn 12 i 13) | 139 | 127 | 91% |
| Pobl ifanc mewn addysg sydd wedi cwblhau blwyddyn 11 ond nad oeddynt mewn chweched dosbarth mewn ysgol (e.e. maent mewn Coleg Addysg Bellach Cyffredinol, wedi'u cofrestru â darparwr hyfforddiant preifat, mewn cyflogaeth, ayb) | 38 | 22 | 58% |
| Cyfanswm | 3,285 | 2,997 | |

*Tabl 20: Cymhariaeth rhwng nifer y plant byddar sy'n perthyn ac a gefnogir, yn ôl lefel byddardod*

| Lefel byddardod | Nifer y plant byddar sy'n perthyn | Nifer y plant byddar a gefnogir | Cyfran o'r plant byddar a gefnogir yn ganran o'r plant byddar sy'n perthyn |
|---|---|---|---|
| Unochrol | 399 | 317 | 79% |
| Mân | 1,037 | 891 | 86% |
| Cymedrol | 1,144 | 1,136 | 99% |
| Difrifol | 331 | 323 | 98% |
| Llwyr | 285 | 250 | 88% |
| Cyfanswm | 3,196 | 2,917 | 91% |

Awgryma'r tabl uchod fod plant â byddardod cymedrol neu ddifrifol yn fwy tebygol o dderbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol na phlant â byddardod llwyr, mân neu unochrol.

**Plant â byddardod dargludol dros dro**

Gofynasom i wasanaethau a oeddynt hefyd yn cefnogi plant â byddardod dargludol dros dro ar wahân. O'r 15 o wasanaethau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cofnododd 12 (80%) eu bod nhw yn eu cefnogi ar wahân a 3 (20%) eu bod nhw ddim yn eu cefnogi ar wahân. Wedyn gofynasom i'r gwasanaethau a gofnododd eu bod nhw'n darparu cefnogaeth ar wahân, faint o blant a gefnogir. Darparodd 10 gwasanaeth ffigur (sy'n golygu bod dau wasanaeth sydd yn cefnogi plant â byddardod dargludol dros dro heb ddarparu ffigur).  Mae yna 798 o blant â byddardod dargludol dros dro a gefnogir gan wasanaethau yr oedd y gwasanaethau'n gallu dweud wrthym amdanynt.

## RHAN 3: Athrawon Plant Byddar

Holodd ein harolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig a'r rheini sy'n gweithio mewn darpariaeth adnoddau. Mynega'r ffigurau fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar CALl 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner "wythnos waith" safonol.

Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yw o leiaf 69.

Hefyd, mae yna o leiaf 74 (CALl) athro sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru. Llenwir 94% o'r swyddi gan Athro Plant Byddar cymwysedig gyda'r 6% sy'n weddill wedi'i llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant neu athrawon cymwysedig sydd heb y cymhwyster gorfodol ac sydd heb gynlluniau i ddechrau hyfforddi ar ei gyfer yn y dyfodol agos.

Pan gyflawnir yr arolwg, bu 0.8 swydd wag CALl. O ychwanegu'r swyddi gwag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, ymddengys fod o leiaf 75 swydd Athrawon Plant Byddar, gydag 1% ohonynt yn wag.

*Tabl 21: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol*

| | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 69.86 | 94% |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 3.8 | 5% |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0.6 | 1% |
| Cyfanswm | 74.26 | 100% |

*Tabl 22: Newidiadau yn nifer yr athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn*

| | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** |
|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn swydd | 71.95 | 91.75 | 66.5 | 67.0 | 69.86 |
| Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn swydd | 75.95 | 100.55 | 71.5 | 70.2 | 74.26 |
| Nifer swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag) | 75.95 | 100.55 | 74.5 | 70.8 | 75.06 |

Edrychasom hefyd ar sawl awdurdod lleol oedd wedi gweld newid i nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

*Tabl 23: Nifer y gwasanaethau lle bu newid i nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys y rheini sydd o dan hyfforddiant neu'r rheini sydd heb y cymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant)*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cynnydd | 6 | 40% |
| Dim newid | 7 | 47% |
| Gostyngiad | 2 | 13% |

Edrycha'r adrannau dilynol yn fwy manwl ar nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn swydd beripatetig neu mewn darpariaeth adnoddau.

**Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig**

Gofynnodd ein harolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a weithiai yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol o Ionawr 2014. Hynny yw, faint o Athrawon Plant Byddar "gwadd" a weithiai ym mhob gwasanaeth. Yn arferol ymwêl Athrawon Plant Byddar gwadd â phlant byddar mewn darpariaeth "anarbenigol" - h.y. plant byddar cyn-ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nad yw ar gyfer plant byddar yn benodol.

*Tabl 24: Nifer yr Athrawon Plant Byddar gwadd mewn cyflogaeth*

| | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Canran** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol | 40.76 | 94% | 15 |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 2.1 | 5% | 3 |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0.6 | 1% | 1 |
| Cyfanswm | 43.46 | | |

Cofnododd dim ond un gwasanaeth unrhyw swyddi gwag o Ionawr 2014, a oedd yn dod i 0.8 swydd CALl. Y rheswm a rhoddwyd oedd bod y gwasanaeth wedi hysbysebu'r swydd ond heb ddod o hyd i ymgeisydd addas.

Yn nhermau Athrawon Plant Byddar cymwysedig gwadd sydd â'r cymhwyster gorfodol, roedd y ffigurau o fewn pob gwasanaeth o 1 i 7 (CALl). Nifer cyfartalog yr Athrawon Plant Byddar gwadd (sydd â'r cymhwyster gorfodol) ym mhob gwasanaeth yw 2.7 (CALl).

Cyfloga 7 gwasanaeth 2 Athro Plant Byddar gwadd neu lai, gyda 1 o'r gwasanaethau hyn yn cyflogi 1 Athro Plant Byddar gwadd neu lai.

Gofynasom a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu sicrhau athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. Cofnododd 2 gwasanaeth anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol tra cofnododd 3 dim anawsterau.

Nodir isod sylwadau a ddarparwyd gan wasanaethau a oedd wedi cael anawsterau wrth recriwtio.

- *Oherwydd diffyg APB cymwysedig sy'n gallu siarad Cymraeg*
- *Anawsterau wth recriwtio athrawon llanw cymwysedig. Dibynnu ar aelodau'r tîm i weithio am fwy o oriau oherwydd salwch. Byth yn gallu recriwtio ymgeisydd i swyddi sydd yn gymwysedig AC yn siarad Cymraeg yn rhugl; felly cyflogwn rai heb y CG ac yn trefnu iddynt dderbyn hyfforddiant bob tro.*
- *Oherwydd diffyg athrawon rhydd dros gyfnod mamolaeth. Nid oedd un asiantaeth ag APB.*
- *Diffyg Athrawon Plant Byddar sydd â'r profiad a'r cymwysterau addas a diffyg cyllid ar gyfer athrawon llanw, yn enwedig mewn swydd beripatetig*

**Llwythi achos Athrawon Plant Byddar Peripatetig**

Edrycha'r adran hon ar y llwythi achos damcaniaethol bob Athro Plant Byddar gwadd trwy edrych ar nifer y plant byddar sy'n byw mewn ardal nad ydynt mewn darpariaeth arbenigol yn barod (os ydynt yn derbyn cefnogaeth neu beidio). Mae yna ystod o farnau ar fuddioldeb hyn a'r ffordd orau o gyfrifo'r gymhareb. Mae'r pwyntiau i'w hystyried yn cynnwys:

- Gall ardaloedd sy'n fawr a gwledig, gael mwy o Athrawon Plant Byddar wadd nag ardaloedd bach a threfol o reidrwydd oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer amser teithio.
- Gall ardaloedd sydd ag uned neu ysgol arbenigol gael llai o Athrawon Plant Byddar gwadd oherwydd amcangyfrifwyd bod y plant byddar sydd â'r angen mwyaf mewn darpariaeth arbenigol yn barod.
- Gall ymddangos bod gwasanaethau sydd mewn sefyllfa well i allu cofnodi a chydnabod yn ddibynadwy nifer y plant byddar sydd yn eu hardal, yn cynnwys y rheini dros 16 oed, â llwythi achos gwaeth na gwasanaethau sydd wedi darparu ffigur am nifer y plant byddar maent yn 'gwybod' amdanynt yn unig.

Yn nhermau syml ac er mwyn cysondeb, amcangyfrifa CRIDE y llwythi damcaniaethol trwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n perthyn mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol[11] gyda'r nifer o Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol.[12] Mi fydd hyn yn cynnwys rhai plant mewn rhai ardaloedd nad ydynt yn cael eu cefnogi yn weithredol gan y gwasanaeth. Ond bydd gwahardd y plant hyn yn amlwg yn creu ysgogiad i wella'r ffigurau trwy dorri cymorth. Hefyd, hyd yn oed pan fod gwasanaeth yn monitro plentyn byddar yn unig, mae hyn dal yn gofyn am amser ac adnoddau gan yr Athro Plant Byddar gwadd. Ni chynhwyswyd ymatebion lle bu bylchau yn naill ai nifer yr Athrawon Plant Byddar neu nifer y plant byddar sy'n perthyn.

Dengys canlyniadau arolwg CRIDE fod pob Athro Plant Byddar gwadd (peripatetig) â llwyth achos damcaniaethol o 71 o blant byddar ar gyfartaledd. Y llwyth achos uchaf oedd 168 mewn un ardal. Mae yna 3 gwasanaeth lle mae gan bob Athro Plant Byddar lwyth achos damcaniaethol o 80 o blant neu mwy, ar gyfartaledd.

**Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau**

Gofynasom a oedd ysgolion â darpariaeth adnoddau neu unedau ar gyfer plant byddar o fewn yr awdurdod lleol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Nododd 11 gwasanaeth (73%) ie a 4 (27%) na.

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar ac a'u cyflogir yn ganolog gan yr awdurdod lleol neu yn uniongyrchol gan yr ysgol. Gofynnir i ymatebwyr am beidio â chynnwys unrhyw amser a dreulir yn cyflawni dyletswyddau ysgol eraill (e.e. amser yn gweithio fel cydlynydd AAA'r ysgol).

11 Mae hyn yn cynnwys plant byddar a gofnodwyd fel: eu bod yn cael eu cynorthwyo yn y cartref (e.e. sydd yn derbyn addysg yn y cartref neu cyn-ysgol), mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth, mewn ysgolion prif ffrwd annibynnol, ysgolion arbenigol eraill (h.y. ar gyfer plant anabl yn fwy cyffredinol) neu mewn darpariaeth ôl-16. Nid yw'n cynnwys plant byddar a gofnodwyd i fod mewn ysgolion prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar.

12 Ni chynhwysir unrhyw athrawon sydd yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar ond sydd heb gymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant.

*Tabl 25: Nifer Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol*

| | **Nifer yr athrawon (CALl) mewn darpariaeth adnoddau a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol** | **Canran** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol | 29.1 | 94% | 10 |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 1.7 | 6% | 2 |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 | 0% | 0 |
| Cyfanswm | 30.8 | | |

Ni chofnodwyd unrhyw swyddi Athrawon Plant Byddar gwag o Ionawr 2015.

# RHAN 4: Staff arbenigol eraill

Awgryma ein harolwg fod o leiaf 85.6 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am Athrawon Plant Byddar, sy'n cefnogi plant byddar yng Nghymru, naill ai mewn swydd beripatetig neu yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau. Y swydd fwyaf cyffredin yw cynorthwyydd addysgu, ac wedyn gweithiwr cefnogi cyfathrebu.

*Tabl 26: Nifer y staff cymorth arbenigol yn gyffredinol, yn ôl swydd*

| | **Nifer y staff (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 73.4 | 86% |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb | 7.2 | 8% |
| Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb | 1.3 | 2% |
| Awdiolegwyr addysgol | 1 | 1% |
| Technegwyr, ayb | 0.5 | 1% |
| Therapyddion Lleferydd ac Iaith | 1.2 | 1% |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt | 0 | 0% |
| Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 0 | 0% |
| Arall | 1 | 1% |
| | | |
| Cyfanswm | 85.6 | |

Mae nifer y staff arbenigol yn gyffredinol wedi cynyddu ychydig bach o 83.5 y llynedd.

Dadansodda'r tabl nesaf nifer y staff arbenigol arall yn ôl sut y'u cyflogir.

**Nifer y staff arbenigol arall**

Gofynnodd yr arolwg am nifer y staff cymorth arbenigol arall, yn ôl a'u cyflogir mewn swydd beripatetig neu a weithient mewn darpariaeth adnoddau

*Tabl 27: Nifer y staff cymorth arbenigol peripatetig, yn ôl swydd*

| | Swydd beripatetig | | | | Darpariaethau adnoddau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | **Canran o'r Cyfanswm** | | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | **Canran o'r Cyfanswm** |
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 13.9 | 5 | 83% | | 59.5 | 9 | 88% |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb | 1.2 | 2 | 7% | | 6 | 4 | 9% |
| Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb | 0 | 0 | 0% | | 1.3 | 1 | 2% |
| Awdiolegwyr addysgol | 1 | 1 | 6% | | 0 | 0 | 0% |
| Technegwyr, ayb | 0.5 | 1 | 3% | | 0 | 0 | 0% |
| Therapyddion Lleferydd ac Iaith | 0.2 | 1 | 1% | | 1 | 1 | 1% |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| Arall | 1 | 1 | 6% | | 0 | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 16.8 | | | | 67.8 | | |

**Darpariaethau adnoddau**

Pan holwyd a ddarparodd y ddarpariaeth adnoddau allgymorth i ysgolion eraill, ymatebodd 3 eu bod nhw yn ei darparu ac 8 nad oeddynt yn ei darparu.

Lle y darperir allgymorth, daeth hyn i amser staff 0.22 CALl ar draws pob gwasanaeth a ymatebodd. Gall y ffigur hwn fod yn uwch gan ni ddarparodd rhai gwasanaethau ateb i'r cwestiwn hwn.

# RHAN 5: Meini prawf / fframweithiau cymhwysedd a threfniadau ariannu

**Gwasanaethau**

Mae pob gwasanaeth yng Nghymru nawr yn defnyddio fframwaith cymhwysedd (meini prawf cymhwysedd gynt) y Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSIP) i'w helpu i benderfynu ba lefel o gymorth y dylai plant byddar ei derbyn. Er gofynasom pa feini prawf a ddefnyddir **yn bennaf**, mynegodd dau wasanaeth eu bod yn defnyddio meini prawf NATSiP a meini prawf lleol.

*Tabl 28: Meini prawf/fframweithiau a ddefnyddir i benderfynu ar lefel y cymorth i blant byddar*

| | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|
| Meini prawf / fframwaith “NatSIP” | 15 |
| Datblygir y meini prawf yn lleol gan mwyaf | 2 |
| Arall | 0 |
| Cyfanswm | 15 |

Holodd yr arolwg hefyd am wybodaeth gyffredinol am y math o wasanaeth a ddarperir ar gyfer gwahanol gategorïau o blant a phobl ifanc byddar. Cydnabuwyd y gall hyn ond bod yn amcan bras o'r gwasanaethau a ddarperir, ac y pennir y cymorth a ddarperir i blant unigol gan ystod o ffactorau yn cynnwys barn broffesiynol, ac nid yn ôl gradd a math o fyddardod yn unig.  Roedd yn bosib i wasanaethau ddewis mwy nag un opsiwn ar gyfer pob grŵp o blant byddar.

*Tabl 29: Math o gefnogaeth a ddarperir yn ôl math o fyddardod*

| **Math o angen** | **Math o fyddardod neu nodwedd arall** | **Nifer y gwasanaethau nad ydynt yn darparu unrhyw gymorth uniongyrchol** | **Nifer y gwasanaethau sy'n darparu ymweliad blynyddol, un-tro neu achlysurol** | **Nifer y gwasanaethau sy'n darparu Athro Plant Byddar dynodedig ac ymweliadau rheolaidd (h.y. mwy nag unwaith y flwyddyn)** |
|---|---|---|---|---|
| **Prif angen parhaol** | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol difrifol neu lwyr | 1 | 7 | 15 |
| | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol cymedrol | 1 | 6 | 8 |
| | Byddardod dargludol dwyochrol | 2 | 8 | 11 |
| | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol mân neu amledd uchel yn unig | 0 | 0 | 7 |
| | Byddardod unochrol (synwyrnerfol neu ddargludol) | 0 | 4 | 14 |
| **Angen ychwanegol parhaol** | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol difrifol neu lwyr | 2 | 7 | 13 |
| | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol cymedrol | 3 | 7 | 7 |
| | Byddardod dargludol dwyochrol | 0 | 4 | 5 |
| **Arall** | Â byddardod dargludol dros dro fel prif angen neu angen ychwanegol | 0 | 4 | 11 |
| | Mewn ysgolion arbennig heblaw ysgolion ar gyfer plant byddar | 2 | 10 | 9 |
| | Â niwropatheg clywedol | 0 | 9 | 3 |
| | Ag anhwylder / anhawster prosesu clywedol | 4 | 10 | 3 |

*Tabl 30: Newidiadau i feini prawf yn y gwasanaeth rhwng 2013/14*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran o'r gwasanaethau** |
|---|---|---|
| Newidiadau sy'n golygu bod rhai plant / pob plentyn byddar bellach yn derbyn mwy o gymorth | 1 | 7% |
| Newidiadau sy'n golygu bod rhai plant / pob plentyn byddar bellach yn derbyn llai o gymorth | 3 | 20% |
| Dim newidiadau | 11 | 73% |
| Cyfanswm | 15 | |

Gofynnwyd i wasanaethau nodi pa safonau ansawdd a ddefnyddir ganddynt er mwyn adolygu datblygiad y gwasanaeth. Roedd yn bosib i wasanaethau ddewis mwy nag un opsiwn.

*Tabl 31: Defnydd o safonau ansawdd er mwyn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir neu er mwyn datblygu'r gwasanaeth*

| | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|
| BATOD, NDCS a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (Action on Hearing Loss bellach): Quality standards: Specialist teaching and support services for deaf children and young people (2009)[13] | 13 |
| Llywodraeth Cymru: Arferion Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (2003) | 7 |
| Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (bellach Yr Adran Addysg) (Lloegr): Quality standards for special educational needs (SEN) support and outreach services (2008)14 | 5 |
| Safonau ansawdd rhaglen sgrinio clyw babanod | 7 |
| Pecyn Cymorth Gwella Ansawdd NatSIP (2014) | 9 |
| Yr Adran Iechyd (Lloegr) Deafblind people: guidance for local authorities | 2 |
| Safonau eraill | 4 |

*Tabl 32: Trefniadau ariannu ar gyfer gwasanaethau cymorth arbennig peripatetig ar gyfer plant o 5 i 16 oed*

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyllid wedi'i reoli'n ganolog gan yr ALl (yn cynnwys arian a reolir gan yr ALl ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth clyw gan ALl eraill, neu asiantaethau allanol e.e. SENSE) | 14 | 93% |
| Cyllid wedi'i ddirprwyo i ysgol arbennig neu ysgol prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau sydd wedyn yn darparu allgymorth i ysgolion eraill | 0 | 0 |
| Cyllid wedi'i ddirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion unigol o fewn yr ALl sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r ALl | 1 | 7% |
| Cyllid wedi'i ddirprwyo'n rhannol i ysgolion unigol o fewn yr ALl sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r ALl (e.e. "gwasanaethau a fasnachir" ar gyfer disgyblion heb ddatganiad) | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 15 | 100% |

Gofynnodd yr arolwg am newidiadau i gyllideb y gwasanaeth rhwng 2013/14 a 2014/15.

*Tabl 33: Newidiadau cyllidol*

| | **Mwy o gyllideb** | **Llai o gyllideb** | **Dim newid i'r gyllideb** | **Nid yw'n hysbys / methu gwahanu cyllideb y Tîm Nam ar y Clyw** |
|---|---|---|---|---|
| **Staffio** | 0 | 3 (20%) | 9 (60%) | 3 (20%) |
| **Hyfforddi** | 2 (14%) | 1 (7%) | 7 (47%) | 4 (29%) |
| **Cyfarpar** | 0 | 1 (7%) | 9 (64%) | 4 (29%) |
| **Arall** | 0 | 0 | 0 | 0 |

Holodd CRIDE a fu adolygiad neu ailddyluniad o'r gwasanaeth rhwng 2013/4 a 2015/6 neu a oedd unrhyw gynlluniau i'w wneud? Atebodd 10 gwasanaeth ie i'r cwestiwn hwn.

13 Gweler: www.ndcs.org.uk/QSRPs
14 Gweler: https://www.education.gov.uk/publications/standard/publicationDetail/Page1/DCSF-00582-2008

**Darpariaethau adnoddau**

*Tabl 34: Trefniadau sydd ar waith i gyflogi a rheoli staff (yn cynnwys Athrawon plant Byddar a staff arbenigol eraill) sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd sydd â darpariaeth adnoddau*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyflogir a reolir y staff gan yr ysgol | 5 | 50% |
| Cyflogir a reolir y staff gan yr awdurdod lleol | 3 | 30% |
| Cyfuniad o'r uchod | 2 | 20% |
| | | |
| Cyfanswm | 10 | |

*Tabl 35: Trefniadau sydd ar waith i gyflogi a rheoli staff (yn cynnwys Athrawon plant Byddar a staff arbenigol eraill) sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd sydd â darpariaeth adnoddau*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyflogir a reolir y staff gan yr ysgol | 6 | 60% |
| Cyflogir a reolir y staff gan yr awdurdod lleol | 2 | 20% |
| Cyfuniad o'r uchod | 2 | 20% |
| | | |
| Cyfanswm | 10 | |

*Tabl 36: Trefniadau ariannu i ddisgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth adnoddau*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran** |
|---|---|---|
| Wedi'i dirprwyo i ysgolion | 6 | 55% |
| Wedi'i reoli'n ganolog | 3 | 27% |
| Yn ganolog ac wedi'i dirprwyo | 2 | 18% |
| Cyfanswm | 11 | |

Awgryma ymatebion yn y categori 'arall' ryw fath o gyfuniad o'r opsiynau blaenorol, neu fod y cyllid wedi'i ddosbarthu i awdurdod lletyol.

Lle mae'r cyllid wedi'i ddirprwyo, gofynnodd CRIDE a oedd cytundeb ar waith (e.e. cytundeb lefel gwasanaeth) er mwyn sicrhau bod arian a ddirprwyir i ysgolion er mwyn darparu cefnogaeth i blant byddar yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn yn unig. Awgrymodd 6 gwasanaeth fod cytundeb ar waith tra awgrymodd 3 fod dim cytundeb ar waith.

*Tabl 37: Safonau neu adnoddau a ddefnyddir er mwyn adfyrfio ar y gwasanaeth a ddarperir o fewn y ddarpariaeth adnoddau neu ar gyfer datblygu'r gwasanaeth*

| **Safonau neu adnoddau a ddefnyddir mewn darpariaethau adnoddau** | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran** |
|---|---|---|
| Safonau Ansawdd: Darpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar mewn ysgolion prif ffrwd, NDCS, (2011) | 11 | 58% |
| Pecyn cymorth gwella ansawdd. NatSIP (2014) | 8 | 42% |
| Arall | 3 | 20% |

## RHAN 6: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Mae cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), Prifysgol Dinas Llundain, Sefydliad Y Glust, Sefydliad Ewing, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS), Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSIP), Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Ysgol Mary Hare, y gwasanaeth arbenigol i blant byddar yng Nghaint, Norfolk ac Ucheldiroedd yr Alban, Prifysgol Leeds a Choleg Prifysgol Llundain.

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Defnyddiwyd adborth gan wasanaethau ar arolygon blaenorol a defnyddiwyd gwersi a ddysgwyd o'r dadansoddi i hysbysu gwelliannau i arolwg 2015.

Mae arolwg CRIDE nawr yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2015, cyhoeddwyd arolwg llawn.

Dosbarthwyd arolwg Cymru i wasanaethau ledled Cymru ym mis Chwefror 2015 gan NDCS ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn Ebrill 22 2015. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltodd aelodau CRIDE â gwasanaethau trwy e-bost a ffôn. Yn dilyn hyn, yn gam olaf, anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r gweddill nad oeddynt wedi ymateb erbyn Mai 2015.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 38: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaeth*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – 22 Ebrill 2015 | 8 | 8 |
| Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt | 3 | 11 |
| Dychwelwyd yn hwyr | 1 | 12 |
| Dychwelwyd yn hwyr ar ôl ceisiad Rhyddid Gwybodaeth | 3 | 15 |

Ymgymerodd NDCS â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffwn ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr a ddefnyddir i hysbysu cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau’r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â professionals@ndcs.org.uk.

# Atodiad A: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl hwn rhai data unigol o wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu'r ffigurau am nifer y plant byddar ac Athrawon Plant Byddar o Ionawr 31 2015.

Noder fod '-' yn golygu na dderbyniwyd ymateb i'r cwestiwn perthnasol tra bod 'n/a' yn awgrymu bod ymateb yn amherthnasol (gan amlaf yn y tabl isod mae hyn oherwydd nid oes darpariaethau adnoddau gan y gwasanaeth).

Dylai cyfeiriadau at Athrawon Plant Byddar cynnwys y rheini sydd â'r cymhwyster gorfodol neu sydd o dan hyfforddiant. Ni chynhwysir staff eraill sy'n gweithio fel Athro Plant Byddar ond heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant.

*Tabl 39: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | **Nifer y plant sy'n perthyn** | **Nifer y plant byddar a gefnogir** | **Nifer yr Athrawon Plant Byddar (CALI) yn y gwasanaeth arbenigol peripatetig** | **Nifer yr Athrawon Plant Byddar (CALI) mewn darpariaeth adnoddau** |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen | 1,198 | 1,198 | 7 | 7.6 |
| Pen-y-bont | 146 | 142 | 3 | - |
| Caerdydd | 275 | 246 | 5.15 | 5.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 100 | 100 | 2 | 3 |
| Ceredigion | 70 | 70 | 1.8 | 1 |
| Conwy | 68 | 66 | 1.5 | N/a |
| Sir Y Fflint, Sir Dinbych a Wrecsam | 264 | 264 | 3 | 5 |
| Ynys Môn a Gwynedd | 148 | 148 | 3.7 | N/a |
| Merthyr Tydfil | 63 | 62 | 1.5 | 0.5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 115 | 115 | 2 | 3 |
| Sir Benfro | 89 | 89 | 1 | N/a |
| Powys | 140 | 123 | 2.6 | N/a |
| Rhondda Cynon Taf | 173 | 132 | 4.6 | 1 |
| Abertawe | 199 | 165 | 2 | 2 |
| Bro Morgannwg | 227 | 99 | 2.01 | 2 |